

PRIFYRDD, CYMRU

202- RHIF

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFYRDD (TIR AR OCHR FLAENDRAETH OYSTER WHARF, Y MWMBWLS, ABERTAWE) 202-

Gwnaed 202-

Yn dod i rym 202-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir ar ochr flaendraeth Oyster Wharf, y Mwmbwls, Abertawe) 202- a daw i rym ar **** 202-.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr “y plan a adnewyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir ar ochr flaendraeth Oyster Wharf, y Mwmbwls, Abertawe) 202-” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 5 Hydref 2017 o dan y cyfeirnod 2017/1666/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

(1) 1990 p. 8; diwygiwyd adran 247 gan adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 24 o Atodlen 6 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

HIGHWAYS, WALES

202- NO.

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND ON FORE-SHORE SIDE OF OYSTER WHARF, MUMBLES, SWANSEA) ORDER 202-

Made 202-

Coming into Force 202-

The Welsh Ministers, in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1), make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Land on fore-shore side of Oyster Wharf, Mumbles, Swansea) Order 202- and it comes into force on **** 202-.

(2) In this Order—

“the Council” (“*y Cyngor*”) the City and County of Swansea Council;

“the deposited plan” (“*y plan a adnewyd*”) means the plan entitled “The Stopping Up of Highways (Land on fore-shore side of Oyster Wharf, Mumbles, Swansea) Order 202-” which accompanies this Order;

“the developer” (“*y datblygwr*”) means the person carrying out the development for which the planning permission has been granted; and

“the 1990 Act” (“*Deddf 1990*”) means the Town and Country Planning Act 1990.

Stopping Up

2. Subject to articles 3, 4, 5 and 6 of this Order the Welsh Ministers authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Order. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Council on 5 October 2017 under reference number

(1) 1990 c. 8; section 247 was amended by section 20(4) of, and paragraph 24 of Schedule 6 to, the Local Government (Wales) Act 1994 (c. 19). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffyrdd

3. Ni chaniateir cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r darn o briffordd i'w gau;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd er mwyn i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr

4. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r darn o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

***** 202-

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

2017/1666/FUL and described in Schedule 3 to this Order.

Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up

3. The length of highway described in Schedule 1 to this Order must not be stopped up until:-

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the length of highway is to be stopped up;

(b) the development described in Schedule 2 to this Order has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to stop up the highway to allow the development to proceed; and

(c) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a) and (b) are satisfied.

Statutory Undertakers and Providers

4. Where immediately before the length of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

Duration of this Order

5. If the development described in Schedule 2 to this Order has not begun within the relevant period specified in Part 3 of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of that period, this Order ceases to have effect upon the cessation of the planning permission.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

***** 202-

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1
(Bras amcan yw pob mesuriad)

Y darn o briffordd sydd i'w gau

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o Oyster Wharf, i'r gogledd o Mumbles Road ac yn gyfagos i Prezzo a Bistrot Pierre, sy'n mesur 938 o fetrau sgwâr ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Adeiladu ffordd fynediad newydd i Mumbles Road a chreu 15 o leoedd parcio ceir er mwyn hwyluso defnyddio'r tir ar ochr y promenâd o Ddatblygiad Oyster Wharf fel gofod i gerddwyr a thir cyhoeddus.

SCHEDULE 1
(All measurements are approximate)

Length of highway to be stopped up

An irregular shaped length of highway being part of Oyster Wharf located north of Mumbles Road and adjacent Prezzo and Bistrot Pierre measuring 938 square metres and shown by zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2

The Development

Construction of new access road onto Mumbles Road and the laying out of 15 car parking spaces to facilitate the use of the land to the promenade side of Oyster Wharf Development as pedestrian and public realm space.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR AR OCHR FLAENDRAETH OYSTER WHARF, Y MWMBWLS, ABERTAWE) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe o dan y cyfeirnod 2017/1666/FUL a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir ar ochr flaendraeth Oyster Wharf, y Mwmbwls, Abertawe) 202- ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 4 Awst 2020 ymlaen, gellir edrych ar gopiâu o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Croeso Lounge, Unit 2, Oyster Wharf, y Mwmbwls SA3 4DN neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1421032.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 1 Medi 2020.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Pan na fo gwrthwynebiadau yn gallu cael eu datrys a phan fo'r Gorchymyn yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus ("YC"), caiff pob gohebiaeth ei chopio i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copio'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND ON FORE-SHORE SIDE OF OYSTER WHARF, MUMBLES, SWANSEA) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The stopping up will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with the planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the City and County of Swansea Council with reference number 2017/1666/FUL described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Land on fore-shore side of Oyster Wharf, Mumbles, Swansea) Order 202- ("the Order"), if made, will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During 28 days from 4 August 2020, copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal business hours at Croeso Lounge, Unit 2, Oyster Wharf, Mumbles SA3 4DN or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1421032.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by email to TransportOrdersBranch@gov.wales by 1 September 2020.

If you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. The Welsh Government will only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where objections cannot be resolved and the Order becomes subject to a Public Inquiry ("PI"), all correspondence is copied to the Inspector of the PI and is available in the PI Library when it becomes publicly available. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.



J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.



J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Y darn o briffordd sydd i'w gau **(Bras amcan yw pob mesuriad)**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o Oyster Wharf, i'r gogledd o Mumbles Road ac yn gyfagos i Prezzo a Bistrot Pierre, sy'n mesur 938 o fetrau sgwâr ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2

Y Datblygiad

Adeiladu ffordd fynediad newydd i Mumbles Road a chreu 15 o leoedd parcio ceir er mwyn hwyluso defnyddio'r tir ar ochr y promenâd o Ddatblygiad Oyster Wharf fel gofod i gerddwyr a thir cyhoeddus.

SCHEDULE 1

Length of highway to be stopped up **(All measurements are approximate)**

An irregular shaped length of highway being part of Oyster Wharf located north of Mumbles Road and adjacent Prezzo and Bistrot Pierre measuring 938 square metres and shown by zebra hatching on the deposited plan.

SCHEDULE 2

The Development

Construction of new access road onto Mumbles Road and the laying out of 15 car parking spaces to facilitate the use of the land to the promenade side of Oyster Wharf Development as pedestrian and public realm space.